



HAY FESTIVAL

imagine the world

SCHOOLS PROGRAMME

RHAGLEN YSGOLION

KEY STAGE 2 / CYFNOD ALLWEDDOL 2
THURSDAY 25 MAY 2017 / IAU 25 MAI 2017

KEY STAGES 3 & 4 / CYFNODAU ALLWEDDOL 3 & 4
FRIDAY 26 MAY 2017 / GWENER 26 MAI 2017



CONTENTS / CYNNWYS

Welcome	3
Croeso	4
Programme at a glance / Y Rhaglen yn fras	5
Your questions answered	6
Atebion i'ch cwestiynau	8
Thursday 25 May – Key Stage 2 Iau 25 Mai - Cyfnod Allweddol 2	
10am events / digwyddiadau	10
11.15am events / digwyddiadau	14
1pm events / digwyddiadau	17
Friday 26 May – Key Stages 3 & 4 Gwener 26 Mai - Cyfnodau Allweddol 3 & 4	
10am events / digwyddiadau	22
11.15am events / digwyddiadau	26
1pm events / digwyddiadau	30
Booking form	34
Ffurflen archebu	35

WELCOME

Hay Festival's Schools Programme is curated by Children's Director Julia Eccleshare

We are delighted to announce the 2017 line-up of writers and performers taking part in our Schools Programme at Hay Festival.

Designed to inspire and excite all pupils in Key Stages 2, 3 and 4, the Schools Programme events are free to all State schools as part of our commitment to young people. It is funded for this purpose by the Welsh Government and Hay Festival Foundation.

On Thursday 25 May (KS 2) and Friday 26 May (KS 3 and 4), we will welcome thousands of children to our site. Pupils and teachers will have the chance to meet amazing writers, performers and poets. They will be inspired to read by listening to authors bringing their books to life through performance. They will also have the opportunity to explore, with the authors, topics including humour, history, football, conservation, loneliness, empathy and tolerance. And they will have the chance to discover what it takes to create a storybook world and to become a writer.

The Festival has a fabulous bookshop where you can browse and buy. The books of all of the writers and performers taking part will be on sale. The writers will be on hand after their events giving everyone in the audience a wonderful opportunity to get a book signed and to ask further questions.

We look forward to welcoming you to two hugely enjoyable and inspiring days in which writers and readers are connected at entertaining and informative events designed especially for schools.



Children's Director at Hay Festival Wales



Get reading during Hay Festival with Readathon's sponsored read and your school will be entered into a prize draw for a chance to win a visit from Children's Laureate Chris Riddell. Order your free kit by 26 May at readathon.org or call 01453 839 002.

Readathon's sponsored read motivates children to read because the money raised helps provide a regular supply of brand new books and storyteller visits for children in hospitals across the UK. Your pupils can choose whatever they fancy including ebooks and audio books. Pick from Hay Festival authors for inspiration...

CROESO

Cafodd Rhaglen Ysgolion Gŵyl y Gelli ei churadu gan y Cyfarwyddwr Plant, Julia Eccleshare.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi enwau'r awduron a'r perfformwyr ardderchog a fydd yn cymryd rhan yn ein Rhaglen i Ysgolion yng Ngŵyl y Gelli 2017.

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ysbrydoli ac ennyn brwd frydedd disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 ac mae hi'n rhad ac am ddim i bob un o ysgolion y wladwriaeth yn rhan o'n hymrwymiad i bobl ifainc. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gŵyl y Gelli.

Ar ddydd Iau 25 Mai (CA 2) a dydd Gwener 26 Mai (CA 3 a 4), byddwn yn croesawu miloedd o blant i'n canolfan. Bydd disgyblion ac athrawon yn cael y cyfle i gyfarfod ag awduron, perfformwyr a beirdd anhygoel. Byddant yn cael eu hysbrydoli i ddarllen ar ôl gwrando ar awduron a fydd yn bywiocáu eu llyfrau drwy gyfrwng perfformiadau gwefreiddiol. Byddant yn cael cyfle hefyd i archwilio, yng nghwmni'r awduron eu hunain, destunau'n cynnwys hiwmor, hanes, pêl-droed, cadwraeth, unigrywedd, empathi a goddefgarwch. Ac fe fyddan nhw'n cael cyfle i ddysgu mwy am fynd ati i greu byd rhwng dau glawr ac am fod yn awdur.

Mae gan yr Ŵyl siop lyfrau ardderchog lle gallwch chi bori a phrynu. Bydd cyfrolau pob un o'r awduron a'r perfformwyr sy'n cymryd rhan ar werth yno. Bydd yr awduron wrth law ar ôl eu digwyddiadau – cyfle gwych i gael llofnod ar eich copi personol chi ac i ofyn cwestiynau pellach.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ystod dau ddiwrnod hwyliog ac ysbrydoledig pan ddaw awduron a darllenwyr at ei gilydd mewn digwyddiadau difyr ac addysgiadol wedi'u cynllunio'n unswydd ar gyfer ysgolion.



Cyfarwyddwr Rhaglen Blant Gŵyl y Gelli yng Nghymru



Cymrwch ran mewn 'Readathon' noddedig arbennig yn ystod Gŵyl y Gelli ac fe allai eich ysgol chi ennill ymwelliad gan y Bardd Plant Llawryfog, Chris Riddell. Archebwch eich pecyn darllen rhad ac am ddim erbyn 25 Mai ar readathon.org neu ffoniwch 01453 839 002.

Mae digwyddiad darllen noddedig Readathon yn ysgogi plant i ddarllen am fod yr arian a godir yn helpu i ddarparu cyflenwad rheolaidd o lyfrau newydd sbon ac ymwelliadau gan storïwyr i blant mewn ysbytai ledled y DG. Gall eich disgyblion ddewis unrhyw lyfr o gwbl, gan gynnwys e-lyfrau a llyfrau sain. Os ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth, dewiswch lyfr gan un o awduron Gŵyl y Gelli ...

PROGRAMME AT A GLANCE Y RHAGLEN YN FRAS

KEY STAGE 2 / CYFNOD ALLWEDDOL 2 THURSDAY 25 MAY 2017 / IAU 25 MAI 2017

10am	Jim Smith	Steve Mould	Maz Evans	Philip Ardagh
Break / Egwyl				
11.15am	Steve Cole	Gary Northfield	Ali Sparkes	Nicola Davies
Lunch / Cinio				
1pm	Guy Bass	John Dougherty	Shane Hegarty	Emma Carroll

KEY STAGES 3 & 4 / CYFNODAU ALLWEDDOL 3 & 4 FRIDAY 26 MAY 2017 / GWENER 26 MAI 2017

10am	Holly Bourne	Alwyn Hamilton	Melinda Salisbury	Ali Sparkes
Break / Egwyl				
11.15am	Kim Slater	Katherine Webber	Daniel Morden	Terri Terry
Lunch / Cinio				
1pm	Phil Earle	Pete Kalu	Jenny Valentine and Aarhus 39 Writers	Science Museum

YOUR QUESTIONS ANSWERED

“Thanks to you all for putting on such an amazing experience. The pupils and staff thoroughly enjoyed it”

Teacher from a Welsh school

Who funds the events?

Our Schools Programme is funded by the Welsh Government and Hay Festival Foundation, as part of our commitment to education and the community.

How do I book tickets?

All bookings are handled by aine@hayfestival.org. You can request tickets by submitting the supplied booking form via post or email. Bookings will be dealt with in order of receipt. The closing date for applications is 13 April 2017.

Do we need to prepare the pupils?

Your pupils will get far more out of their visit if they have had the chance to read some of the books by the authors they are going to hear speak. They will know what questions they want to ask and be much more engaged with the event. Pupils are welcome to bring their own books to be signed by the authors. The Festival Bookshop will have books by all the authors appearing at the festival on sale. Schools can arrange to buy books in advance at a discounted rate – we will send you an order form, to be returned by 2 May.

Can we go to more than one event?

You can attend as many events as you wish, as long as there is space available.

Can we bring a large group of children to the festival site?

The site is designed for safety and comfort. Each school will be greeted on arrival and guided to their first venue. Festival staff will be on hand throughout the day to answer queries. The site has full security, with a comprehensive lost child procedure.

Photo: Chris Athanasiou



Are the events accessible?

Yes, our venues are wheelchair-accessible and have infra-red audio loops for students with hearing difficulties.

Can we bring packed lunches?

Yes, there is plenty of space on site for pupils to relax and enjoy themselves during the lunch break. In the event of rain, everyone will stay dry inside the tents.

Is there anywhere we can buy tea and coffee on site?

The Friends Café will be open throughout the two Schools Programme days, serving tea, coffee, drinks and snacks.

Where should we park?

The Festival has parking on site for minibuses. Coaches may pull into the lay-by outside the site on Brecon Road for drop-offs but must leave the site via Glasbury. Drivers may then park free of charge in the designated coach area at Baskerville Hall Hotel. At the end of the day, coaches will be called and directed when their pupils are ready to depart. There is a compulsory one-way system in operation travelling from Baskerville Hall Hotel car park through Hay town to the site. Coaches must depart via Glasbury. A letter with further information will follow.

ATEBION I'CH CWESTIYNAU

“Diolch i chi i gyd am drefnu digwyddiad mor anhygoel. Roedd yn brofiad ardderchog i'r disgyblion ac i'r staff.”
Athro o ysgol yng Nghymru

Pwy sy'n ariannu'r digwyddiadau?

Caiff ein Rhaglen i Ysgolion ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gŵyl y Gelli yn rhan o'n hymrwymiad i addysg a'r gymuned.

Sut mae archebu tocynnau?

Caiff pob archeb ei drin gan aine@hayfestival.org. Gallwch wneud cais am docynnau drwy lanw'r ffurflen archebu atodedig a'i gyrru atom drwy'r post neu ar e-bost. Caiff archebion eu trin yn y drefn y cânt eu derbyn. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 13 Ebrill 2017.

A oes angen i ni baratoi ymlaen llaw gyda'r disgyblion?

Bydd eich disgyblion yn cael mwy o fudd o'r rhaglen os byddan nhw wedi darllen ambell un o'r llyfrau y bydd ein hawduron yn eu trafod. Byddan nhw'n gwybod pa gwestiynau i'w gofyn ac fe fyddant yn gallu ymwneud â'r digwyddiad mewn mwy o ddyfnader. Mae croeso i ddisgyblion ddod â'u llyfrau eu hunain o adre' i gael eu llofnodi gan yr awduron. Bydd Siop Lyfrau'r Wyl hefyd yn gwerthu llyfrau gan yr holl awduron sy'n ymddangos. Gall ysgolion drefnu i brynu llyfrau o flaen llaw, am bris gostyngol. Byddwn yn anfon ffurflen archebu atoch, i'w dychwelyd erbyn 2 Mai.

Allwn ni fynd i fwy nag un digwyddiad?

Gallwch fynychu cynifer o ddigwyddiadau ag y mynnwch, os bydd lle ar gael.

Allwn ni ddod â grŵp mawr o blant i safle'r wyl?

Mae'r safle wedi ei chynllunio i fod yn ddiogel a chyffyrddus. Byddwn yn croesawu pob ysgol wrth iddynt gyrraedd ac yn tywys disgyblion i'r lleoliad cyntaf. Bydd staff yr Wyl wrth law drwy gydol y dydd i ateb eich cwestiynau. Mae gan y safle gynllun diogelwch cynhwysfawr ac mae yna drefniadau pwrrpasol ar gyfer delio â phlant sy'n mynd ar goll.



A yw'r digwyddiadau yn hygrych?

Ydyn, mae ein lleoliadau yn hygrych i gadeiriau olwyn ac mae ganddynt ddolenni sain is-goch ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau clywed.

Allwn ni ddod â phecynnau cinio gyda ni?

Cewch. Mae digon o le ar y safle i ddisgyblion ymlacio a mwynhau yn ystod yr awr ginio. Os bydd hi'n bwrw glaw, gallant aros dan do yn ein peyll.

Oes yna le i brynu te a choffi ar y safle?

Bydd Caffi'r Cyfeillion ar agor trwy gydol dau ddiwrnod y Rhaglen i Ysgolion a bydd yn cynnig te, coffi, diodydd a byrbrydau.


Ble ddylem ni barcio?

Mae gan yr Wyl faes parcio penodol i fysiau mini. Gall bysus dynnu i mewn i'r gilfan y tu allan i'r safle ar Heol Aberhonddu er mwyn gadael plant oddi ar y bws ond rhaid iddynt adael y safle drwy Clas ar Wy / Glasbury. Gall gyrwyr bysus barcio am ddim yn y maes parcio penodedig i fysus yng Ngwesty Baskerville Hall. Ar ddiwedd y dydd, caiff bysus eu galw pan fydd disgyblion yn barod i adael. Mae system unffordd orfodol yn weithredol o faes parcio Baskerville Hall, trwy dref Y Gelli ac ymlaen i safle'r wyl. Rhaid i fysus adael drwy Clas ar Wy / Glasbury. Byddwn yn anfon llythyr â gwybodaeth bellach atoch maes o law.

THURSDAY 25 MAY - KEY STAGE 2

IAU 25 MAI - CYFNOD ALLWEDDOL 2

10AM JIM SMITH



Jim Smith, creator of the hilarious Barry Loser series, won the Roald Dahl Funny Prize in 2013 for *I am Still not a Loser*, his second book in the Barry Loser series, each of which is packed full of silly humour, quirky plots and doodles. Despite his name, Barry Loser could be a cool kid except that he has some deadly enemies such as Darren Darrenofski who makes his life a misery. How can Barry ever be really cool? And does it matter as much as he thinks? Jim Smith will introduce his stories with lots of humour and some live draw-a-longs. He will show how to draw Barry and his mates, and he may draw live portraits of children in the audience, too

Enillodd Jim Smith, creawdwr cyfres ardderchog Barry Loser, Wobr Roald Dahl yn 2013 am *Still not a Loser*, yr ail lyfr yn y gyfres. Mae pob un o lyfrau Barry Loser yn llawn hiwmor gwirion, plotiau rhyfedd a sgetsys. Er gwaethaf ei enw, fe allai Barry Loser fod yn blentyn cwl - ond mae ganddo ambell elyn peryglus iawn, fel Darren Darrenofski, sy'n gwneud ei fywyd yn ddiflas. Sut all Barry fod yn cwl mewn gwirionedd? Ac a yw hynny mor bwysig ag y mae e'n credu? Bydd Jim Smith yn cyflwyno ei straeon mewn sesiwn yn llawn hiwmor ac fe fydd yna arlunio byw hefyd. Bydd yn dangos i chi sut i dynnu lluniau o Barry a'i ffrindiau, ac mae'n bosib y bydd yn gwneud portreadau byw o blant yn y gynulleidfa hefyd.

Focus: Humour, creating illustrations

Resources: www.barryloser.com

Booklist: *Barry Loser and the Birthday Billions*


Ffocws: Hiwmor, darlunio

Adnoddau: www.barryloser.com

Llyfrau: *Barry Loser and the Birthday Billions*

10AM STEVE MOULD

Photo: Steve Ullathorne



Steve Mould is a TV presenter whose most recent appearances include presenting *I Never Knew That About Britain*. He is also the author of *How to be a Scientist*. Despite being a disaster in the laboratory at school, Mould discovered some incredibly cool science, 'The Mould Effect', at the age of 35. He will explain what this is and reveal the secrets of his mistakes and explain how to learn from them. Through exciting experiments he'll prove that there is science all around and why, as a scientist, you can't always trust your own senses. He will also illustrate just how much fun can be had with science, including how to prank your friends and family with its power.

Mae Steve Mould yn gyflwynydd teledu a oedd i'w weld yn ddiweddar fel cyflwynydd *I Never Knew That About Britain*. Ef hefyd yw awdur *How to be a Scientist*. Er ei fod yn ddisgybl ofnadwy yn y labordy yn yr ysgol, llwyddodd Mould i ddarganfod pethau gwyddonol hynod, fel 'Effaith Mould', pan oedd yn 35 oed. Bydd yn esbonio beth yn union yw 'Effaith Mould', yn datgelu cyfrinachau ac yn esbonio sut y llwyddodd i ddysgu yn sgil ei gamgymeriadau. Trwy gyfrwng arbrofion cyffrous, bydd yn profi bod gwyddoniaeth o'n hamgylch ni ymhobman ac yn dangos pam na all y gwyddonydd ymddiried yn ei synhwyrau ei hun bob amser. Bydd Steve hefyd yn dangos cymaint o hwyl sydd i'w gael gyda gwyddoniaeth, ac yn dangos sut y gallwch chi chwarae triciau ar eich ffrindiau a'ch teulu.

Focus: Science

Resources: stevemould.com; @MouldS


Booklist: *How to be a Scientist*

Ffocws: Gwyddoniaeth

Adnoddau: stevemould.com; @MouldS

Llyfrau: *How to be a Scientist*

10AM MAZ EVANS



In *Who Let the Gods Out?* this debut author has created a wildly fun-filled story in which the Greek gods come crashing into the present day. Things are tough for Elliot. His mum is ill, his home is under threat and the future looks bleak. But then a shooting star crashes to Earth and Virgo, a goddess from the Zodiac signs, enters his life. Virgo and Elliot accidentally release a wicked demon who has been imprisoned under Stonehenge. Only the Olympian gods can help them. The trouble is that Zeus and his friends are unpredictable to say the least. Evans uses the world of her hilarious novel *Who Let the Gods Out?* to introduce Greek Mythology – as you've never heard it before. Join Maz as she takes you through the wacky world of the gods and shows you how to create your own hero.

Yn *Who Let the Gods Out?* mae Maz yn creu stori lawn hwyl lle mae'r hen dduwiau Groegaidd yn cael eu hyrddio ar eu pennau i'n cyfnod cyfoes ni. Mae pethau'n anodd i Elliot. Mae ei fam yn sâl, mae ei gartref dan fygythiad ac mae'r dyfodol yn edrych yn llwm. Ond yna mae seren wib yn dod i wrthdrawiad â'r Ddaear ac mae Virgo, un o dduwiesau'r Sidydd, yn dod yn rhan o'i fywyd. Mae Virgo a Elliot yn llwyddo, ar ddamwain, i ryddhau cythraul drwg a garcharwyd tan hynny dan Gôr y Cewri. A dim ond y duwiau Olympaidd all eu helpu. Ond, yn anffodus, mae Zeus a'i ffrindiau yn annibynadwy a dweud y lleiaf. Mae Evans yn defnyddio byd ei nofel hynod ddoniol *Who Let the Gods Out?* i gyflwyno Mytholeg Roegaidd - mewn modd ardderchog ac annisgwyl. Ymunwch â Maz wrth iddi eich arwain drwy fyd gwllgo'r duwiau - a dangos i chi sut i greu eich arwr eich hun.

Focus: Greek Mythology

Resources: [@MaryAliceEvans](#)


Booklist: *Who Let the Gods Out?*

Ffocws: Mytholeg Roegaidd

Adnoddau: [@MaryAliceEvans](#)

Llyfrau: *Who Let the Gods Out?*

10AM PHILIP ARDAGH



Ardagh's *The Secret Diary of John Drawbridge* is a clever blend of fact and fiction. Propelled by great characters, it is full of exciting historical facts, as young John Drawbridge goes off to train to become a knight. Previously a winner of the Roald Dahl Funny Prize, Ardagh includes lots of jokes as he shows just how much there is to learn in order to become a knight. How to charge with a lance on horseback without falling off, for example. Or, why the plates served at banquets are made of stale bread (and why you shouldn't eat them).

Mae llyfr Ardagh, *The Secret Diary of John Drawbridge*, yn gyfuniad clyfar o ffaith a ffuglen. Wedi'i yrru gan gymeriadau gwych, mae'n llawn ffeithiau hanesyddol cyffrous ac yn adrodd hanes y John Drawbridge ifanc, sy'n hyfforddi i fod yn farchog. Yn gyn-enillydd Gwobr 'Funny' Roald Dahl, mae Ardagh yn cynnwys llawer o jôcs wrth iddo ddangos beth yn union y mae angen ei ddysgu er mwyn bod yn farchog. Sut i ymosod gyda gwaywffon ar gefn ceffyl heb gwympo, er enghraifft. Neu, pam mae'r platau mewn gwleddoedd wedi eu gwneud o hen fara (a pham na ddylech chi eu bwyta).

Focus: History

Resources: www.philipardagh.co.uk; @PhilipArdagh


Booklist: *The Secret Diary of John Drawbridge*

Ffocws: Hanes

Adnoddau: www.philipardagh.co.uk; @PhilipArdagh

Llyfrau: *The Secret Diary of John Drawbridge*

11.15AM STEVE COLE



The best-selling children's author and lifelong fan of Ian Fleming's *James Bond* has previously written *Doctor Who* stories and *AstroSauRs*. *Red Nemesis* is the fourth and final Young Bond adventure, a series charting the adventures of James Bond as a boy, before he became the world's most famous spy. Cole will talk about his final, explosive Young Bond adventure, giving a unique insight into the political tensions that were building in Europe in the 1930s, and explain the gadgetry of the era. The event is interactive as the writer shares the research behind his creation, explains how he became such a fan of Ian Fleming's super-spy and introduces new characters.

Mae'r awdur poblogaidd – a'r ffan pybyr o gymeriad Ian Fleming, James Bond – hefyd wedi ysgrifennu straeon i Doctor Who a AstroSauRs. *Red Nemesis* yw'r pedwerydd llyfr – a'r olaf – yng nghyfres y Bond ifanc ac mae'n adrodd hanes James Bond yn fachgen, cyn iddo ddod yn ysbïwr enwocaf y byd. Bydd Cole yn siarad am yr antur olaf ffrwydrol, yn cynnig cipolwg unigryw ar y tensiynau gwleidyddol yn Ewrop yn y 1930au ac yn esbonio dyfeisiadau'r cyfnod hefyd. Bydd y digwyddiad yn rhyngweithiol a bydd yr awdur yn rhannu'r gwaith ymchwil y tu ôl i'w waith, gan esbonio sut y daeth i fod yn gymaint o ffan o siwper-ysbïwr Ian Fleming. Bydd hefyd yn cyflwyno ambell gymeriad newydd.

Focus: Adventure, re-working classic stories, history

Resources: www.stevecolebooks.co.uk; @SteveColeBooks

Booklist: *Young Bond: Strike Lightening*; *Young Bond: Red Nemesis*

Ffocws: Antur, aillddychnu straeon clasurol, hanes

Adnoddau: www.stevecolebooks.co.uk; @SteveColeBooks

Llyfrau: *Young Bond: Strike Lightening*; *Young Bond: Red Nemesis*

11.15AM GARY NORTHFIELD



Northfield is a master cartoonist who has been writing and drawing comics since 2002. He is most famous for *Derek the Sheep* – a comic strip in *The Beano*. He has also created comics for *The Phoenix*, *The Dandy*, *Horrible Histories* magazine, *The Magical World of Roald Dahl*. One of his favourite subjects to write and draw is animals and their jolly lives, as he wonders what they think about the world they live in. *Julius Zebra: Rumble with the Romans* is full of Roman facts and drawing tips for budding young cartoonists. Julius is no ordinary Zebra – he is really a Roman Gladiator. He was captured by slavers from the desert plains and, unlikely as it sounds, has become the favourite gladiator in Rome. Now, in *Bundle with the Britons*, Julius thinks he's going on his jolly holibobs to the swamps of Britain, where he has to prove his worth to win his freedom.

Mae Northfield yn gartwnydd arbennig a fu'n ysgrifennu ac yn darlunio comics ers 2002. Ei greadigaeth enwocaf yw *Derek the Sheep* – comic a gyhoeddwyd yn *The Beano*. Mae e hefyd wedi creu comics ar gyfer *The Phoenix*, *The Dandy*, cylchgrawn *Horrible Histories* a *The Magical World of Roald Dahl*. Un o'i hoff bynciau yw anifeiliaid a'u bywydau hwyliog, ac mae e'n ceisio ystyried beth fyddai eu barn nhw am y byd o'u cwmpas. Mae *Julius Zebra: Rumble with the Romans* yn llawn ffeithiau Rhufeinig a chyngorion darlunio i gartwnwyr ifanc. Nid sebra cyffredin mo Julius – mewn gwirionedd, mae e'n gladiator Rhufeinig. Cafodd ei gymryd yn gaethwas yng ngwastadeddau'r anialwch ac, yn annisgwyl ddigon, ef bellach yw ffefryn pawb o blith y gladiatoriad yn Rhufain. Yn *Bundle with the Britons*, mae Julius yn credu ei fod yn mynd ar wyliau i gorsydd Prydain ond mae'n rhaid iddo brofi ei werth er mwyn ennill ei ryddid.

Focus: Roman history; cartoon illustration

Resources: www.garynorthfield.com; [@gnorthfield](https://twitter.com/gnorthfield)

Booklist: *Julius Zebra: Rumble with the Romans*; *Julius Zebra: Bundle with the Britons*

Ffocws: Hanes Rhufeinig; creu cartwâns

Adnoddau: www.garynorthfield.com; [@gnorthfield](https://twitter.com/gnorthfield)

Llyfrau: *Julius Zebra: Rumble with the Romans*; *Julius Zebra: Bundle with the Britons*

11.15AM ALI SPARKES



Sparke's books include *The Shapeshifter* series and she has won two *Blue Peter* Awards for *Frozen in Time*. She will discuss what it takes to create an award-winning title, based on *Thunderstruck*, her latest dramatic adventure which features the effects of being struck by lightning and the setting up of a Strike Club. Who can join a Strike Club? Only those who have recently taken 70,000 volts. Alisha and Theo don't expect to get struck by lightning – or to meet Doug and Lizzie who also got struck. Especially as their strike, in the 1970s, killed them. Sparkes will describe how she develops her characters and makes up her imaginative storyline.

Mae llyfrau Sparkes bellach yn cynnwys cyfres 'Shapeshifter' ac mae hi wedi ennill dwy Wobr Blue Peter am *Frozen in Time*. Bydd yn trafod yr hyn sydd ei angen er mwyn creu teitl gwobrwyol ac yn defnyddio *Thunderstruck*, ei hantur ddramatig ddiweddaraf, fel enghraifft. Mae honno'n sôn am effeithiau cael eich taro gan fellten a sefydlu 'Strike Club'. Pwy sy'n gallu ymuno â 'Strike Club'? Dim ond y rheiny sydd wedi cael eu taro gan 70,000 folt. Dyw Alisha a Theo ddim yn disgwyl cael eu taro gan fellten – a dy'n nhw ddim yn disgwyl cwrdd â Doug a Lizzie chwaith, sydd hefyd wedi cael eu taro. Yn enwedig am eu bod nhw wedi cael eu taro gan fellt – a'u lladd – yn y 1970au. Bydd Sparkes yn disgrifio sut yr â ati i ddatblygu ei chymeriadau ac i ddyfeisio ei straeon dychmygus.

Focus: Creative writing, inventing characters

Resources: www.alisparkes.com; @SparkesAli


Booklist: *Thunderstruck*

Ffocws: Ysgrifennu creadigol, dyfeisio cymeriadau

Adnoddau: www.alisparkes.com; @SparkesAli

Llyfrau: *Thunderstruck*

11.15AM NICOLA DAVIES



The author, zoologist and ultimate animal expert will introduce some amazing wild animals and describe their wondrous lives in locations right across the planet. *Her Heroes of the Wild* series tells incredible stories of how humans and animals can save each other and live side by side, and you'll learn fascinating animal facts. Did you know that blue whales have hearts the size of smart cars and that elephants hear through their feet? This promises to be a fun session for the future generation of conservationists and animal lovers.

Bydd yr awdur, y swolegydd a'r arbenigwr ar anifeiliaid yn cyflwyno ambell anifail gwyllt rhyfeddol ac yn disgrifio eu bywydau rhyfeddol mewn lleoliadau ledled y byd. Mae ei chyfres 'Heroes of the Wild' yn adrodd straeon anhygoel am fodau dynol ac anifeiliaid yn achub bywydau'i gilydd ac yn byw'n gytûn. Byddwch chi'n dysgu ambell ffaith anhygoel am anifeiliaid hefyd. Oeddech chi'n gwybod, er enghraift, bod gan forfilod glas galonnau maint ceir bach? A bod eliffantod yn clywed gyda'u traed? Mae'r sesiwn yn addo bod yn un hwyliog i'r genhedlaeth nesaf o gadwraethwyr ac anifail-garwyr.

Focus: Animal facts, conservation

Resources: www.nicola-davies.com, @nicolakidsbooks

Booklist: *Walking the Bear, Manatee Baby, The Elephant Road, The Lion Who Stole My Arm*

Ffocws: Ffeithiau am anifeiliaid, cadwraeth

Adnoddau: www.nicola-davies.com, @nicolakidsbooks

Llyfrau: *Walking the Bear, Manatee Baby, The Elephant Road, The Lion Who Stole My Arm*

1PM GUY BASS



Bass once wanted to be a super-hero and now writes about them, his books including *Stitch Head*, *The Legend of Frog*, *Dinkin Dings*, *Atomic!* and *Monster Madness / Monster Mayhem*. In his latest Spynosaur series, top ‘spyentists’ put the mind of a secret agent inside the body of a dinosaur, creating the first-ever Super Secret Agent Dinosaur, a prehistoric hero who can protect the world from international evil. Spynosaur uses mischief and trickery to achieve his extra-special undercover results. Join the author for a high-energy introduction to his latest character.

Ar un adeg, roedd Guiy eisiau bod yn uwch-arwr ac, erbyn hyn, mae e'n ysgrifennu amdanyn nhw. Mae ei lyfrau yn cynnwys *Stitch Head*, *The Legend of Frog*, *Dinkin Dings*, *Atomic!* a *Monster Madness / Monster Mayhem*. Yn ei gyfres ddiweddaraf, ‘Spynosaur’, mae'r ‘spyentists’ wedi gosod meddwl asiant cudd yng nghorff deinosor er mwyn creu'r 'Spynosaur' cyntaf erioed. Arwr cynhanesyddol yw hwnnw sy'n gallu amddiffyn y byd rhag pob math o ddrygioni rhyngwladol. Mae 'Spynosaur' yn defnyddio drygioni ac ystryw i gwblhau ei dasgau cudd arbennig. Ymunwch â'r awdur am gyflwyniad egniol i'w gymeriad diweddaraf.

Focus: Humour, super-heroes, dinosaurs

Resources: www.guybass.com; [@GuyBassBooks](https://twitter.com/GuyBassBooks)

Booklist: *Spynosaur*; *Spynosaur vs Goldenclaw*


Ffocws: Hiwmor, uwch-arwyr, deinosoriaid

Adnoddau: www.guybass.com; [@GuyBassBooks](https://twitter.com/GuyBassBooks)

Llyfrau: *Spynosaur*; *Spynosaur vs Goldenclaw*

1PM JOHN DOUGHERTY

Photo / Llun: Jo Cotterill



The author, poet, songwriter and former teacher is best known for his *Stinkbomb & Ketchup-Face* series. Dougherty has always enjoyed messing about with words which is why he loves writing poetry and particularly funny poetry. His latest collection *Dinosaurs & Dinner-Ladies* has been described as “full of wit and charm”. Accompanying himself on the guitar, John Dougherty will perform his poems and discuss the inspiration behind them.

